Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee Held on 26th May 2026 at 6:30pm Hybrid meeting Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Cllrs Sara Keeton (Chair), Rebecca Fogarty, Xanthe Keeton and Carrie Townsend Jones.

**Officers Present**: Mari Potter – Environmental Sustainability Officer

| | |
|---|---|
| **EN2605-01** | **Apologies for Absence**: Cllrs - Helen Nelson |
| **EN2605-02** | **Declarations of Interest:**<br>Cllrs Rebecca Fogarty and Sara Keeton declared a personal interest in any matter connected to SCC that might arise in their capacities as SCC Councillors. |
| **EN2605-03** | **Minutes of Previous Meeting of the Committee**<br>To approve the minutes of the meeting held on the 24th of February 2026 as a true record.<br><br>**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on the 24th of February 2026 as a true record. |
| **EN2605-04** | **Bethany Gardens – Bee Friendly Streets**<br>Colber and Dennis attended the meeting to provide an update on the ongoing work at Bethany Gardens. The Committee was informed that a phased plan of action has been developed and significant progress has been made, including planting within the North Bed and clearance work along the Mumbles Road wall. The Committee noted the support being provided by Paul Bidder of Gower College Swansea and the donation of wildflower seeds from Mumbles Community Council for a 15m x 7m roadside area, which is to be developed as a wildflower meadow.<br><br>Members were advised that the next phase of the project is the creation of a woodland trail through the gardens, with local schools being invited to assist in its design. It was reported that three of the seven local schools are already actively engaged with the project. Bethany Gardens has also hosted successful community events, including an oversubscribed Easter egg hunt, with a pizza evening planned at Ripples Café later in June. |

| | |
|---|---|
| | Discussion took place regarding future biodiversity enhancements, including the introduction of bee hotels, a wormery, dead hedging and deadwood habitats, subject to grant funding opportunities. Dennis requested advice from the Environmental Sustainability Officer (ESO) regarding the suitability of establishing a vegetative screen to conceal a wall and possible planting options.<br>Councillor Carrie Townsend-Jones highlighted potential grant funding opportunities available through Mumbles Community Council. The Committee also discussed the provision of a sign for Bethany Gardens, including possible locations and the inclusion of sponsor acknowledgements. Councillor Townsend-Jones advised that grant funding options could be explored, with the ESO to discuss possibilities with the Deputy Chief Officer.<br>Dennis agreed to provide the ESO with an audit of Bethany Gardens to assist in identifying opportunities for further advice and support. Colber and Dennis expressed a desire to work more closely with Mumbles Community Council for wider community benefit, and Members agreed that the project aligns well with the Bee Friendly Streets initiative.<br>The possibility of Colber and Dennis applying to become co-opted members of the Environmental Committee was discussed. It was noted that any application would need to be considered in accordance with the Council's co-option process and approved by Full Council.<br>The Chair, Councillor Keeton, thanked Colber and Dennis for their dedication and hard work at Bethany Gardens. The Committee thanked them for attending and agreed that the ESO would maintain regular communication and continue to explore opportunities for collaboration and support. |
| **EN2605-05** | **Actions arising from Previous Meetings**<br>The committee was updated on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members.<br><br>**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions |
| **EN2605-06** | **Elect Vice Chair for Committee**<br><br>A vote was requested and following a show of hands by Councillors, the following Councillors voted for Cllr Carrie Townsend-Jones :- Cllrs Fogarty, X.Keeton and S.Keeton.<br><br>**RESOLVED**: Cllr CarrieTownsend-Jones was duly elected as Vice Chair of The Environmnetal Committee. |
| **EN2605-07** | **Elect a Representative for Facilities and Property Committee**<br><br>A vote was requested and following a show of hands by Councillors, the following Councillors voted for Cllr Carrie Townsend-Jones :- Cllrs Fogarty, X.Keeton and S.Keeton.<br><br>**RESOLVED**: Cllr CarrieTownsend-Jones was duly elected as the Environmental Committee's Representative for the Facilities and Property Committee |
| **EN2605-08** | **Training Plan**<br>Members discussed available training opportunities, including:<br>Diversity training and Climate Leadership training. |

| EN2605-09 | ESO Monthly Report (Review of Current Projects and Plans)<br><br>**a) The Great Big Green Week**<br>The ESO, Mari Potter updated the committee of the schedule and plans for the Great Big Green Week, running from the 6th to the 14th of June 2026. Including: Crop collective volunteering, 'Green Mumbles' Event, Connect-With-Nature Yoga, Repair Café & Clothing Swap and a Community Litter Pick.<br><br>**b) 'Green Mumbles' Green Star Rating**<br>The ESO informed the committee of the new initiative, set up in partnership with The Swansea Environment Centre, a 'green stars rating' scheme to help celebrate and encourage local businesses with sustainability. The stickers for shop windows have been designed by Cat Hiles, the Marketing and Events Officer. The initiative will be launched at the 'Green Mumbles' event on the 8th of June 2026.<br><br>**c) Repair Café**<br>A progress update was given by the ESO, that the repair café has become increasingly popular. The next steps include moving the Repair Café to join the national scheme 'Repair Café Wales'.<br><br>**d) Freshwater Watch**<br>Mari Potter informed the committee that initial site testing of Clyne Stream had been carried out by a small group of volunteers. The project will have an official launch in the coming months as work is being undertaken at the second testing site; Washinghouse Brook.<br><br>**e) Volunteering and Crop Collective**<br>The ESO gave an update that 1st Mumbles Scout group Cubs attended Norton Nature Reserve, where they planted lots of seeds and vegetables, did a bug hunt and painted a raised bed. The volunteer coordinator, Sarah Thyer, has been doing a great job with volunteers for different initiatives.<br><br>**f) Social Media**<br>Mari informed the committee of the great new social media posts created by Cat Hiles, the new Marketing and Events Officer.<br><br>**g) Mumbles Wellfest**<br>The ESO updated the committee on the sustainable measures that are hoping to be implemented into the 'Wellfest' event.<br><br>**h) Green spaces**<br>It was reported that Ash Haynes, the grounds person, had done a fantastic job at focussing on Norton Nature Reserve, including a new pond, raised beds, wildflowers, woodchip pathways and much more.<br>**i) Extras** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | Mari Potter gave an update on a GIS project, mapping out the green spaces around the Mumbles area, a 'Mini Beast Safari' that was a popular event and the want for MCC's Sustainable Procurement Policy to be more widely used by the council.<br><br>**RESOLVED:** Council noted the report. |
| **EN2605-10** | **Marketing and Social Media**<br>The Marketing and Social media was reported on during the ESO monthly report.<br><br>**RESOLVED:** Council noted the report. |
| **EN2605-11** | **The Great Big Green Week**<br>The Great Big Green Week was reported on during the ESO monthly report.<br><br>**RESOLVED:** Council noted the report |
| **EN2605-12** | **Washing House Brook Update**<br>Cllr Sara Keeton updated that work has started at Washinghouse woods, care was taken to check for nesting birds and wildlife prior to work starting. Cllr Fogarty brought to the attention of the committee that an Enagement meeting was to be held at West Cross Community Centre on the 29th of May, starting at 4:30pm. |

**Meeting Finished** at 7:32pm

**Next meeting** 23rd June 2026

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd
# A gynhaliwyd ar 26 Mai 2026 am 6.30pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Microsoft Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y cynghorwyr Sara Keeton (cadeirydd), Rebecca Fogarty, Xanthe Keeton and Carrie Townsend Jones.

**Swyddogion yn bresennol**: Mari Potter – Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol

| | |
|---|---|
| EN2605-01 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorydd Helen Nelson |
| EN2605-02 | **Datganiadau o fuddiant:**<br>Gwnaeth y Cynghorwyr Rebecca Fogarty a Sara Keeton ddatganiad o fuddiant personol mewn unrhyw fater sy'n gysylltiedig â Chyngor Dinas a Sir Abertawe a allai godi yn rhinwedd y ffaith eu bod nhw yn Gynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe. |
| EN2605-03 | **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**<br>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2026 fel cofnod cywir.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2026 fel cofnod cywir. |
| EN2605-04 | **Gerddi Bethany – Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn**<br>Mynychodd Colber a Dennis y cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo yng Ngerddi Bethany. Hysbyswyd y pwyllgor fod cynllun gweithredu fesul cam wedi'i ddatblygu a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, gan gynnwys plannu yng ngwely blodau'r gogledd a gwaith clirio ar hyd wal Heol y Mwmbwls. Nododd y pwyllgor y gefnogaeth a ddarparwyd gan Paul Bidder o Goleg Gŵyr Abertawe a'r rhodd o hadau blodau gwyllt gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer ardal 15m x 7m ar ochr y ffordd, a fydd yn cael ei ddatblygu fel dôl blodau gwyllt.<br><br>Dywedwyd wrth yr aelodau mai cam nesaf y prosiect yw creu llwybr coetir drwy'r gerddi, a gwahodd ysgolion lleol i gynorthwyo yn ei ddyluniad. Rhoddwyd gwybod bod tair o'r saith ysgol leol eisoes yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect. Mae Gerddi Bethany hefyd wedi cynnal digwyddiadau cymunedol llwyddiannus, gan gynnwys helfa wyau Pasg lle'r oedd y galw'n uwch na'r lleoedd a oedd ar gael, gyda noson pizza wedi'i chynllunio yng Nghaffi Ripples yn ddiweddarach ym mis Mehefin.<br>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch gwelliannau bioamrywiaeth yn y dyfodol, gan gynnwys cyflwyno gwestai gwenyn, abwydfa, creu perthi marw a chynefinoedd coed marw, yn amodol ar gyfleoedd cyllid grant. Gofynnodd Dennis am gyngor gan y Swyddog |

| | |
|---|---|
| | Cynaliadwyedd Amgylcheddol ynghylch addasrwydd sefydlu sgrin o blanhigion i guddio wal ac opsiynau plannu posibl.<br>Tynnodd y Cynghorydd Carrie Townsend-Jones sylw at gyfleoedd cyllid grant posibl sydd ar gael trwy Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Trafododd y pwyllgor hefyd ddarparu arwydd ar gyfer Gerddi Bethany, gan gynnwys lleoliadau posibl a chynnwys cydnabyddiaeth i noddwyr. Dywedodd y Cynghorydd Townsend-Jones y gellid edrych ar opsiynau cyllid grant, ac i'r Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol gael trafodaeth am y posibiliadau gyda'r Dirprwy Brif Swyddog.<br>Cytunodd Dennis i ddarparu archwiliad yng Ngerddi Bethany i'r Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol i gynorthwyo nodi cyfleoedd ar gyfer cyngor a chymorth pellach. Mynegodd Colber a Dennis yr awydd i weithio'n fwy agos gyda Chyngor Cymuned y Mwmbwls er budd y gymuned ehangach, a chytunodd yr aelodau fod y prosiect yn cyd-fynd yn dda â'r fenter Strydoedd sy'n Hybu Gwenyn.<br>Trafodwyd y posibilrwydd y byddai Colber a Dennis yn gwneud cais i ddod yn aelodau cyfetholedig o Bwyllgor yr Amgylchedd. Nodwyd y byddai angen ystyried unrhyw gais yn unol â phroses gyfethol y cyngor a'i gymeradwyo gan y cyngor llawn.<br>Diolchodd y cadeirydd, y Cynghorydd Keeton, i Colber a Dennis am eu hymroddiad a'u gwaith caled yng Ngerddi Bethany. Diolchodd y pwyllgor iddynt am fynychu a chytunodd y byddai'r Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn cyfathrebu'n rheolaidd â nhw ac yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chynorthwyo. |
| **EN2605-05** | **Camau gweithredu yn codi o gyfarfodydd blaenorol**<br>Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, rhestr a oedd wedi'i dosbarthu yn flaenorol.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu |
| **EN2605-06** | **Ethol is-gadeirydd y pwyllgor**<br><br>Gofynnwyd am bleidlais ac yn dilyn pleidlais gan y cynghorwyr drwy godi dwylo, pleidleisiodd y cynghorwyr canlynol dros y Cynghorydd Carrie Townsend-Jones:- Y Cynghorwyr Fogarty, X.Keeton ac S.Keeton.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Ethol y Cynghorydd Carrie Townsend-Jones yn is-gadeirydd y Pwyllgor yr Amgylchedd. |
| **EN2605-07** | **Ethol cynrychiolydd ar gyfer y Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo**<br><br>Gofynnwyd am bleidlais ac yn dilyn pleidlais gan y cynghorwyr drwy godi dwylo, pleidleisiodd y cynghorwyr canlynol dros y Cynghorydd Carrie Townsend-Jones:- Y Cynghorwyr Fogarty, X.Keeton ac S.Keeton.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Ethol y Cynghorydd Carrie Townsend-Jones yn briodol yn gynrychiolydd Pwyllgor yr Amgylchedd ar gyfer y Pwyllgor Cyfleusterau ac Eiddo |
| **EN2605-08** | **Cynllun hyfforddi**<br>Trafododd yr aelodau gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael, gan gynnwys y canlynol: Hyfforddiant ar amrywiaeth a hyfforddiant ar arweinyddiaeth hinsawdd. |

| | |
|---|---|
| **EN2605-09** | **Adroddiad misol y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol (adolygiad o brosiectau a chynlluniau presennol)**<br><br>**a) Yr Wythnos Werdd Fawr**<br>Rhoddodd y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Mari Potter, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr amserlen a'r cynlluniau ar gyfer yr Wythnos Werdd Fawr, a gynhelir rhwng 6 a 14 Mehefin 2026. Gan gynnwys: Gwirfoddoli Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls, digwyddiad 'Mwmbwls Gwyrddach', Ioga cysylltu â byd natur, Caffi Trwsio, Trwco dillad a Chasglu sbwriel cymunedol.<br><br>**b) Sgôr seren werdd 'Mwmbwls Gwyrddach'**<br>Rhoddodd y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol wybod i'r pwyllgor am y fenter newydd, a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chanolfan Amgylcheddol Abertawe, sef cynllun 'sêr gwyrdd' i gynorthwyo i ddathlu ac annog busnesau lleol i ddewis cynaliadwyedd. Mae'r sticeri ar gyfer ffenestri siopau wedi cael eu dylunio gan Cat Hiles, y Swyddog Marchnata a Digwyddiadau. Bydd y fenter yn cael ei lansio yn nigwyddiad 'Mwmbwls Gwyrddach' ar 8 Mehefin 2026.<br><br>**c) Caffi Trwsio**<br>Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd gan y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol, bod y Caffi Trwsio wedi dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae'r camau nesaf yn cynnwys symud y Caffi Trwsio i ymuno â chynllun cenedlaethol 'Caffi Trwsio Cymru'.<br><br>**d) Freshwater Watch**<br>Hysbysodd Mari Potter y pwyllgor fod profion safle cychwynnol ar Nant Clun wedi'u cynnal gan grŵp bach o wirfoddolwyr. Bydd y prosiect yn cael ei lansio'n swyddogol yn y misoedd nesaf wrth i waith gael ei wneud yn yr ail safle profi; Washinghouse Brook.<br><br>**e) Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls a Gwirfoddoli**<br>Rhoddodd y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol yr wybodaeth ddiweddaraf bod Cybiau Grŵp Sgowtiaid 1af y Mwmbwls, wedi mynychu Gwarchodfa Natur Norton, lle gwnaethon nhw blannu llawer o hadau a llysiau, cynnal helfa bryfed a phaentio gwely uchel. Mae cydlynydd y gwirfoddolwyr, Sarah Thyer, wedi bod yn gwneud gwaith gwych gyda gwirfoddolwyr ar gyfer gwahanol fentrau.<br><br>**f) Y cyfryngau cymdeithasol**<br>Rhoddodd Mari wybod i'r pwyllgor am y postiadau newydd gwych ar y cyfryngau cymdeithasol a grëwyd gan Cat Hiles, y Swyddog Marchnata a Digwyddiadau newydd.<br><br>**g) Gŵyl Wellfest y Mwmbwls**<br>Rhoddodd y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y mesurau cynaliadwy y gobeithir eu rhoi ar waith yn nigwyddiad 'Wellfest'. |

| | |
|---|---|
| | **h) Mannau gwyrdd**<br>Adroddwyd bod Ash Haynes, gofalwr y tir, wedi gwneud gwaith gwych yn canolbwyntio ar Warchodfa Natur Norton, gan gynnwys pwll dŵr newydd, gwelyau uchel, blodau gwyllt, llwybrau naddion pren a llawer mwy.<br>**i) Materion ychwanegol**<br>Rhoddodd Mari Potter yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiect y System Gwybodaeth Ddaearyddol, gan fapio'r mannau gwyrdd o amgylch ardal y Mwmbwls, 'Saffari Bwystfilod Bach' a oedd yn ddigwyddiad poblogaidd a'r awydd i bolisi caffael cynaliadwy Cyngor Cymuned y Mwmbwls gael ei ddefnyddio'n ehangach gan y cyngor.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Bod y cyngor yn nodi'r adroddiad. |
| **EN2605-10** | **Marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol**<br>Rhoddwyd gwybod am farchnata a'r cyfryngau cymdeithasol yn adroddiad misol y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Bod y cyngor yn nodi'r adroddiad. |
| **EN2605-11** | **Yr Wythnos Werdd Fawr**<br>Rhoddwyd gwybod am yr Wythnos Fawr Werdd yn ystod adroddiad misol y Swyddog Cynaliadwyedd Amgylcheddol.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Bod y cyngor yn nodi'r adroddiad |
| **EN2605-12** | **Yr wybodaeth ddiweddaraf am Washinghouse Brook**<br>Rhoddodd y Cynghorydd Sara Keeton wybodaeth bod y gwaith wedi dechrau yng nghoed Washinghouse, a chymerwyd gofal i wirio am adar a bywyd gwyllt yn nythu cyn i'r gwaith ddechrau. Tynnodd y Cynghorydd Fogarty sylw'r pwyllgor at y ffaith y byddai cyfarfod ymgysylltu yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymunedol West Cross ar 29 Mai, yn dechrau am 4.30pm. |

**Daeth y cyfarfod i ben** am 7.32pm

**Cyfarfod nesaf** 23 Mehefin 2026